Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 11 Mehefin 2018** am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Cadeirydd), Stephen Beach, Robert Owen-Ellis, Ken Hawkins, John Wynne Hughes a Rosie Hughes.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Heather Williams ac Ifan Wyn.

2. ETHOL CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Ian Lewney fel Cadeirydd y Pwyllgor, ac roedd yr holl aelodau'n cytuno.

PENDERFYNWYD: *ethol y Cynghorydd Ian Lewney yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu am y flwyddyn nesaf.*

3. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau.

4. CYLCH GORCHWYL DRAFFT

Bu'r aelodau'n ystyried y cylch gorchwyl drafft a gyflwynwyd.

PENDERFYNWYD: *mabwysiadu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.*

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Mai 2018 yn gywir.

6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych: 02/2018/0302 – Bryn Euryn, Stryd y Mynydd, Rhuthun – adeilad estyniad i'r annedd – Caniatawyd 02/2018/0074 – 38 Stryd y Ffynnon, Rhuthun – Arddangos arwydd ffasgia wedi'i oleuo'n fewnol ac arwydd ymwthiol – Caniatawyd

8. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: *nad oedd gwybodaeth ddigonol i alluogi gwneud penderfyniad a gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y dimensiynau, uchder yr adeilad arfaethedig ac asesiad effaith ar yr amgylchedd gan Gyngor Sir Ddinbych.*

02/2018/0435 – Tŷ'n y Minffordd, Llanfwrog, Rhuthun

Newid defnydd tir a ffurfio *manège*.

PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2018/0445 – Tir y tu ôl i Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun

Datblygu 0.09 hectar o dir trwy adeilad dau annedd ar wahân, gosod tanc septig newydd a gwaith cysylltiedig (cais amlinellol yn cynnwys mynediad).

02/2018/0470 – Bryn Tawel, 7 Fron Haul, Rhuthun

Torri un goeden castanwydden sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed.

02/2018/0461 – Bron Parc, Galltegfa, Rhuthun

Adeiladu adeilad amaethyddol ar gyfer cartrefu da byw.

02/2018/0497 – Blazers Fuels, Lôn Cae Brics, Rhuthun
Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio cyfeirnod 02/2015/1095 i ganiatáu diwygiadau i'r cynlluniau a'r dogfennau.
02/2018/0480 – Ruthin Precast Concrete Ltd, Caeau'r Chwarel, Rhewl, Rhuthun
Codi estyniad i adeilad diwydiannol i ddarparu cyfleuster cywasgu a sychu

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 9 Gorffennaf 2018 am 6:45pm.*